



Llywodraeth Cymru
Welsh Government


Canllaw i Ymarferwyr

Cynllun Dehongli Cymru Gyfan

www.cymru.gov.uk



 Cadw



1. Beth yw cynllun dehongli Cymru gyfan a pham bod ei angen arnom?

Mae Cymru yn genedl falch a chymhleth, gyda threftadaeth gyfoethog sy'n unigryw, ond eto sy'n cydblethu â thynged gweddill Prydain. Mae'r cysyniad o Gymru fel un endid yn dyddio yn ôl i'r 13eg ganrif (er bod y ffiniau wedi amrywio dros amser), ond mae stori'r bobl a fu'n byw ac yn gweithio yma yn llawer, llawer hŷn, yn dyddio yn ôl i gyfnod cynhanesyddol, tua chwarter miliwn o flynyddoedd yn ôl. Dyma stori am ddyfeisgarwch pobl, eu brwydrau am rym, eu gwleidyddiaeth a'u creadigrwydd; am genedl fach oedd yn aml yn cael mwy o ddylanwad na'r disgwyl ar y llwyfan byd-eang. Mae amgylchedd hanesyddol Cymru wrth wraidd ein diwylliant cyfoethog ac amrywiol. Eto, i'r rhan fwyaf o bobl, nid yw dyfnder na phwysigrwydd stori'r asedau treftadaeth hyn bob amser mor amlwg neu mor hawdd i'w deall.

Dyna'r her sy'n wynebu diwydiant treftadaeth Cymru ar hyn o bryd — sut y gallwn gyflwyno straeon a safleoedd cymhleth i gynulleidfaoedd nad ydynt yn gwybod llawer am y lle na'i hanes? Ymhellach, sut y gallwn sicrhau eu bod yn hawdd eu deall ac yn berthnasol? Os byddwn yn llwyddo, drwy gyflwyno straeon Cymru mewn modd mwy deniadol ac ystyrlon gallwn wneud y canlynol:

- **dwysáu balchder lleol a chenedlaethol yn ein hasedau treftadaeth;**
- **gwneud cysylltiadau rhwng pobl a lleoedd;**
- **rhoi cyfleoedd i bobl ddysgu rhywbeth newydd;**
- **gwella dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth pobl o'n straeon cyfoethog;**
- **gwella profiad ymwelwyr;**
- **atgyfnerthu delwedd Cymru mewn modd cadarnhaol;**
- **sicrhau bod Cymru yn fwy cystadleuol yn y farchnad twristiaeth fyd-eang;**
- **ennyn mwy o werthfawrogiad o'r amgylchedd hanesyddol ac felly gyfrannu at y gwaith o'i warchod.**

Er mwyn gwneud hyn, mae angen i ni gydgyssylltu dehongliadau ar sail Cymru gyfan — 'byddai cynllun dehongli Cymru gyfan yn rhoi sail ar gyfer dull mwy cydgyssylltiedig a chydlynol o ddehongli treftadaeth a diwylliant Cymru'.¹

Mae Cadw, gwasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru, yn arwain y gwaith o greu fframwaith dehongli treftadaeth ar gyfer yr holl wlad, sy'n canolbwyntio ar bobl. Y nod yw 'llywio'r dehongliadau i ganolbwyntio ar becynnau gweithredu sy'n canolbwyntio ar ymwelwyr gan sicrhau y rhoddir naratif trosfwaol 'cenedlaethol' o hyd². Mae'r dull 'Cymru gyfan' yn unigryw i Gymru hyd yma.

¹ Lewis, M., Cadw, Dehongli treftadaeth a thwristiaeth yng Nghymru, Awst 2011

² Cadw, Dehongli Treftadaeth Cymru Gyfan 2010

2. Cefndir

'Rydyn ni am sicrhau bod safleoedd treftadaeth yn lleoedd hygyrch a phleserus a hynny i ymwelwyr â Chymru ac i bobl sy'n byw yng Nghymru',³ Huw Lewis AC, Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth.

Mae dehongli yn uchel ar agenda treftadaeth Cymru diolch i nifer o ffactorau yn cynnwys cefnogaeth weinidogol gref, adolygiad o ddehongliadau Cadw ei hun, a'r Prosiect Twristiaeth Treftadaeth a ariennir gan yr UE.

Rhoddodd adolygiad Cadw resymeg dros ddatblygu dull Cymru gyfan o ddehongli gan nodi: 'Mae angen i ddehongliadau newydd allu edrych allan i'r dirwedd, gan wneud cysylltiadau â henebion eraill o'r un cyfnod neu swyddogaeth, a gallu adrodd y stori ar draws cyfres o henebion gwahanol'.⁴

Mae pedair prif egwyddor Cadw ar gyfer dehongli'r amgylchedd hanesyddol fel a ganlyn:

- **Mae hanes wedi digwydd yma — pwysigrwydd hanesyddol y safle**
- **Rwyf yn byw yma — rhoi llais i'r rhai a oedd yn byw ac yn gweithio yn y safleoedd hanesyddol o'r tlotaf i'r rhai mwyaf pwerus**
- **Edrychwch yma — annog ymwelwyr i archwilio a chwestiynu'r pethau a welant**
- **Mae'n bwysig i ni — dylanwadu ar y modd y mae ymwelwyr yn teimlo tuag at eu treftadaeth ac at gadwraeth yn fwy cyffredinol.**



Nod Cadw yw cyflwyno dehongliadau sy'n:

- llawn dychymyg
- arloesol
- rhyngweithiol
- ennyn diddordeb
- ysbrydoli
- gwneud defnydd priodol o dechnolegau newydd
- cynhwysol
- dwyieithog yn Gymraeg ac yn Saesneg

Fel y cyfryw mae Cadw yn ymhyfrydu yn ei rôl o roi cymorth ac arweiniad wrth gyflwyno cynllun Dehongli Cymru gyfan. Adlewyrchir hyn yn ei flaenoriaethau ar gyfer 2011–16 sy'n cynnwys hyrwyddo 'hygyrchedd y straeon sy'n gysylltiedig â lleoedd hanesyddol, a gwerthfawrogiad pobl ohonynt, gan ymgysylltu'r cyhoedd drwy ddehongliadau a chreadigrwydd'.⁵ Y nod yw cyflwyno hyn drwy nifer o brif egwyddorion a gwerthoedd gan gynnwys parhau â'r ffocws ar bobl; cynnig arweinyddiaeth a meithrin partneriaethau; a thanio gwreichionen greadigol yn y ffordd y darperir eu gwasanaethau.

Bu'r Prosiect Twristiaeth Treftadaeth yn ddefnyddiol i sefydlu dull Cymru gyfan. Sefydlwyd y prosiect pum mlynedd hwn (2009–14) i sicrhau'r gwerth economaidd gorau posibl o dreftadaeth drwy gynyddu nifer yr ymweliadau â Chymru, eu hyd a'u gwerth. Drwy ddehongliadau gwell, nod y prosiect yw cyflwyno treftadaeth ragorol Cymru i gynulleidfa ehangach drwy sicrhau eu bod yn lleoedd mwy pleserus i ymwelwyr a phobl sy'n byw yng Nghymru ymweld â hwy. Ariennir y prosiect yn bennaf gan Lywodraeth Cymru a chan Gronfeydd Cydgyfeirio'r UE. Fe'i harweinir gan Cadw ar ran Llywodraeth Cymru, ac mae'n cynnwys amrywiaeth o bartneriaid o bob sector.

'Mae llwyddiant y Prosiect Twristiaeth Treftadaeth yn dibynnu ar gyflwyno safleoedd treftadaeth mewn modd integredig a datblygu straeon ystyrlon a chofiadwy, gan wneud cysylltiadau rhwng safleoedd, lleoedd, pobl a chymunedau'.⁶ Mae'r cefndir hwn yn sail dda i ddull dehongli Cymru gyfan. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau bod dull Cymru gyfan yn cyflawni ei botensial, mae'n bwysig bod cymaint o ddarparwyr treftadaeth â phosibl yn cymryd rhan.

³ Huw Lewis AC, Blaenoriaethau Gweinidogol ar gyfer Amgylchedd Hanesyddol Cymru, 2012

⁴ Atkins, 2009, Interpretation planning for the Historic Environment of Wales, t. 52

⁵ Blaenoriaethau Cadw 2011–16, Gorffennaf 2011

⁶ M. Lewis, Cadw, Dehongli treftadaeth a thwristiaeth yng Nghymru, Awst 2011



3. At bwy y mae wedi'i anelu?

'Mae dehongliadau effeithiol wedi'u targedu at y cynulleidfaoedd priodol'⁷

Mae gan yr amgylchedd hanesyddol apêl eang. Mae'n denu ymwelwyr o dramor; o bob cwr o'r DU ac o'r gymuned leol: 'Ymweld â safleoedd treftadaeth yw'r gweithgaredd gwyliau mwyaf poblogaidd i dwristiaid yng Nghymru — yn aml mae atyniadau twristiaeth sy'n seiliedig ar dreftadaeth ymysg rhesymau pobl dros ymweld â Chymru'.⁸

Mae marchnad y DU yn eithriadol o bwysig yn ystod cyfnodau brig, ond ymwelwyr lleol ac ymwelwyr dydd eraill sydd bwysicaf dros y cyfnodau eraill.

Dengys ymchwil Cadw ei hun⁹ fod safleoedd treftadaeth fel arfer yn apelio i grwpiau economaidd-gymdeithasol uwch (dosbarthiadau economaidd-gymdeithasol A, B, C1). Nod dull Cymru gyfan yw dileu rhwystrau a chynyddu nifer yr ymwelwyr o ddsbarthiadau economaidd-gymdeithasol C2, D ac E (h.y. dosbarthiadau gweithiol heb sgiliau neu gyda rhywfaint o sgiliau a'r rheini ar y lefelau isaf o gynhaliath¹⁰) ac ychwanegu gwerth i'r ymweliad i'r rhai sy'n ymweld eisoes.

Mae ymchwil¹¹ yn awgrymu bod y ffactorau sy'n rhwystro pobl rhag ymweld yn cynnwys:

- difaterwch (mae hyn yn gryf ymysg marchnadoedd lleol sy'n meddwl 'gallaf fynd yfory');
- cost ganfyddedig (yn aml mae'r canfyddiad yn waeth na'r realiti);
- materion yn ymwneud â gwerth am arian (e.e. cost o gymharu ag amser/gwerth o'r ymweliad)
- canfyddiad nad yw'n addas i deuluoedd.

Mae'r farchnad i deuluoedd yn bwysig iawn i safleoedd treftadaeth. Maent yn cyfrif am ymhell dros 50% o'r holl ymweliadau â safleoedd Cadw — a hynny er y ffaith bod yr ymchwil wedi nodi nad oedd y rhan fwyaf o bobl yn credu bod y dehongliadau mewn safleoedd yn arbennig o 'addas i deuluoedd'. Mae teuluoedd mor bwysig fel bod yr adolygiad, er iddo nodi 'y dylid mabwysiadu dull cynhwysol o ddehongli sy'n canolbwyntio ar y gynulleidfa ac y dylid mabwysiadu dull o ymgysylltu hefyd'¹² hefyd yn nodi y dylid rhoi blaenoriaeth i'r angen i ddarparu ar gyfer 'plant a grwpiau teuluol'.¹³

4. Beth yw'r stori?

Mae pawb yn gwybod nad un naratif yw stori Cymru, ond yn hytrach ei bod yn cynnwys gwerth sawl mileniwm o straeon; rhai sy'n angerddol, yn gyfareddol, sydd weithiau'n syml, weithiau'n gymhleth, sy'n gorgyffwrdd ac yn cydblethu. Yn ffodus mae gennym amgylchedd hanesyddol gwych yng Nghymru sy'n gosod sail ar gyfer adrodd y straeon hyn.

⁷ Atkins, 2009, Interpretation Planning for the Historic Environment of Wales, t. 20

^{*} Mae'r rhestr hon yn gymharol gynhwysfawr ond nid yw'n gyflawn, a gellid ei hehangu yn y dyfodol

⁸ Amgylchedd Hanesyddol Cymru: Dathliad 2009, t. 5

⁹ Beaufort Research 2009

¹⁰ <http://www.businessballs.com/demographicsclassifications.htm#nrs-social-grade-definitions-uk>

¹¹ Ymchwil gan Beaufort Research i grwpiau a dangynrychiolir yn safleoedd Cadw 2009

¹² Atkins, 2009, Interpretation Planning for the Historic Environment of Wales, t. 44

¹³ Atkins, 2009, Interpretation Planning for the Historic Environment of Wales, t. 58

Yr her gyntaf wrth gyflwyno dehongliadau Cymru gyfan oedd crynhoi straeon Cymru yn llinynnau straeon dealladwy y gellir eu cydgyssylltu. Ar ôl ymgynghori, nodwyd nifer o bynciau allweddol.

- **Gwreiddiau, cynhanes a goresgyniad a gwladychiad y Rhufeiniaid.**
- **Tirweddau ysbrydol ac ysbrydolgar — ysbrydoliaeth grefyddol, ysbrydol a diwylliannol o'r cyfnod cynhanesyddol hyd at heddiw.**
- **Cestyll a thywysogion Cymru'r oesoedd canol, yn cynnwys y tywysogion brodorol, y goresgyniad Normanaidd ac Edwardaidd, brwydr y Cymry am annibyniaeth.**
- **Twf masnachwyr a bonedd Cymru, 16eg ganrif–18fed ganrif. Twf trefi, pensaernïaeth gynhenid a threfi maenor Cymreig.**
- **Cymru — y genedl ddiwydiannol gyntaf o'r cyfnod cynnar hyd at heddiw.**
- **Amddiffyn y deyrnas, o'r Rhyfeloedd Napoleonaidd i'r Rhyfel Oer.**
- **Cymru forwrol.**
- **Twf Cymru a chenedligrwydd Cymreig yn yr 20fed a'r 21ain ganrif.**

Defnyddiwyd y pynciau hyn i lywio amrywiaeth o gynlluniau dehongli (adran 5).

5. Gwneud cynlluniau

Un o'r camau pwysig i gyflawni'r uchelgais o ddehongli ar lefel Cymru gyfan yw paratoi cynlluniau dehongli i'r llinynnau straeon a amlinellir uchod. Yn hanfodol, mae nifer o werthoedd craidd y mae angen i bob cynllun eu dangos:

- **mae angen i bob gweithgarwch dehongli gael ei gynllunio a'i lywio gan themâu clir ac amcanion mesuradwy**
- **mae'n rhaid i straeon Cymru gael eu dehongli o fewn y cynlluniau waeth beth yw ffiniau gwleidyddol (yn cynnwys awdurdod lleol), perchenogaeth y safle neu ardaloedd cyllid**
- **mae'n rhaid i'r cynlluniau gael eu datblygu ar y cyd â chynghorwyr academiaidd arbenigol, er mwyn sicrhau y gellir dilysu/gwirio'r 'hanes' a'i fod yn berthnasol i ddealltwriaeth pobl heddiw**
- **mae angen i'r cynlluniau ganolbwyntio ar ymwelwyr**
- **mae'n rhaid ymgynghori â rhanddeiliaid fel Ymddiriedolaethau Archeolegol, yr**

Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Amgueddfa Cymru, awdurdodau lleol, partneriaethau twristiaeth rhanbarthol a pherchenogion safleoedd eraill

I ryw raddau, mae'r angen am gyfleustra ac ymarferoldeb wedi llywio'r drefn y cafodd y cynlluniau dehongli eu datblygu, a'r drefn y cânt eu datblygu ar hyn o bryd, ond y nod yw bod pob cynllun yn cael ei ddatblygu yn y tymor byr. Mewn rhai achosion, mae'r cynlluniau'n mabwysiadu dull fframwaith eang tuag at y llinyn stori (e.e. Cymru, y genedl ddiwydiannol gyntaf), ond mewn achosion eraill, mae'r llinynnau straeon wedi'u rhannu ymhellach i greu cynlluniau dehongli ystyrlon a manwl (e.e. rhannwyd Cestyll a Thywysogion Cymru'r Oesoedd Canol yn bum llinyn o is-straeon). Dengys Diagram 1 y gydberthynas rhwng llinynnau straeon a'r cynlluniau dilynol.

Mae pob cynllun yn atgyfnerthu'r egwyddor o ddefnyddio'r amgylchedd hanesyddol fel y cyfnas ar gyfer darlunio straeon pobl o'r gorffennol o bob cefndir a chan gynrychioli safbwyntiau amrywiol.


Er eu bod weithiau'n awgrymu cyfryngau ar gyfer safleoedd unigol, ni fwriedir i'r cynlluniau hyn ddisodli cynlluniau dehongli ar safleoedd penodol. Yn hytrach, bwriedir iddynt gynnig mantell i gwmpasu'r dehongliadau ar safleoedd penodol, h.y. sicrhau na chaiff pob safle ei ystyried ar wahân, ond yn hytrach y gall adrodd ei stori yng nghydestun ehangach y llinyn stori trosfwaol. Gellir lawrlwytho crynodeb o bob cynllun a ddatblygwyd hyd yma yn <http://cadw.wales.gov.uk/interpretation/interpretationplans/?skip=1&lang=cy>



Castell Dinbych.

Dehongli Treftadaeth Cymru Gyfan

Diagram 1



6. Sicrhau bod y cynlluniau'n cyflawni'r nod

Gyda nifer o gynlluniau wedi'u cwblhau neu wrthi'n cael eu datblygu, mae Cadw wedi gwerthuso'r rheini a luniwyd hyd yma i lywio'r gwaith o ddatblygu cynlluniau ar gyfer y dyfodol. Cododd y gwerthusiad rai cwestiynau sylfaenol yn y byrdymor:

- **A yw'r cynlluniau yn diwallu ein hanghenion ac anghenion darpar bartneriaid prosiect?**
- **Os nad ydynt, beth yw'r methiannau?**

Yn y tymor hwy bydd angen gwerthusiad i ganfod sut mae'r cynlluniau yn effeithio ar foddhad a dealltwriaeth ymwelwyr.

Mae'r adolygiad cychwynnol hwn yn awgrymu y dylai cynlluniau ar gyfer y dyfodol gael eu llunio gan ddilyn fformat safonol i sicrhau eu bod yn haws i'w defnyddio. Dylai cynlluniau hefyd geisio bod yn gynhwysfawr eu cwmpas a darparu trosolygon dehongli eang ar gyfer y llinynnau straeon y maent yn eu cynrychioli heb fod yn rhy gyfarwyddol.

7. Creu'r cysylltiadau

Yn ogystal â bod yn newydd i'r sector treftadaeth, mae'r dull cydgyssylltiedig hwn yn newydd i'n hymwelwyr hefyd. Felly mae'n bwysig creu rhyw fath o ymdeimlad o gynefindra, rhyw ddull o helpu ein cynulleidfaoedd i ddeall yn reddfodol bod y 'safle hwn yn gysylltiedig â hwnna', ac 'os byddaf yn mynd i'r safle hwnnw, byddaf yn cael ychydig mwy o'r stori' ac ati. I'r perwyl hwn mae cyfres o eiconau wedi'u datblygu sy'n cynrychioli llinynnau'r stori/is-stori ac y gellir eu defnyddio ar ddeunydd dehongli i awgrymu beth yw'r brif stori (neu'r prif straeon) ar safle, a ble y gallai'r ymwelydd fynd nesaf er mwyn dilyn y stori. Mae nodiadau canllaw ar sut i ddefnyddio'r eiconau hyn a'r is-bennawd 'Dilynwch y Stori' ar gael i'w lawrlwytho yn <http://cadw.wales.gov.uk/interpretation/guidancenotes/?skip=1&lang=cy>





8. Pam cymryd rhan mewn dehongliadau i Gymru gyfan?

Gall dull Cymru gyfan gyflwyno buddiannau sylweddol i bartneriaid:

- gan ei fod yn rhan o raglen genedlaethol unigryw a gefnogir gan Lywodraeth Cymru;
- gan ei fod yn rhoi safle(oedd) y rhai sy'n cymryd rhan mewn cyd-destun ehangach ar gyfer ymwelwyr;
- gan y gall arwain at gynnydd yn nifer yr ymwelwyr — drwy drawsgyfeirio ymwelwyr rhwng safleoedd (bach a mawr);
- gan ei fod yn rhoi ffocws marchnata newydd ar gyfer cyrraedd marchnadoedd yn y DU a marchnadoedd rhyngwladol;
- gan ei fod yn cynnig cyfleoedd i ymuno â gweithgareddau marchnata cydgysylltiedig;
- gan ei fod yn rhoi cyfleoedd/onglau gwahanol ar gyfer cysylltiadau cyhoeddus;

Cadw yw gwasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru, yn gweithio i sicrhau amgylchedd hanesyddol hygrych a ddiogelir yn dda i Gymru.
www.cadw.cymru.gov.uk

Cadw is the Welsh Government's historic environment service working for an accessible and well-protected historic environment for Wales.
www.cadw.wales.gov.uk



Llywodraeth Cymru
 Welsh Government

- gan ei fod yn arwain at gydberthnasau gwaith agosach yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol.

9. Cymryd rhan

Er mwyn sicrhau bod dull Cymru gyfan yn cael yr effaith fwyaf, mae angen iddo ddenu partneriaid o bob cwr o Gymru o'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol. Mae'n gweithio ar bob graddfa ac mae yr un mor berthnasol i brosiectau treftadaeth gymunedol ag ydyw i Cadw a'i 128 o safleoedd. Mae'r dull hwn yn dod â darparwyr treftadaeth a thwristiaeth ynghyd, gan ein galluogi i fod yn rhan o gyfanwaith llawer mwy — gan chwarae ein rhan i gyflwyno straeon difyr Cymru mewn ffyrdd creadigol sy'n ysbrydoli.

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:
 Dave Penberthy, Pennaeth Dehongli, Cadw
david.penberthy@wales.gsi.gov.uk

